



Proffil Swydd: Swyddog Gweithredol Digwyddiadau

Trosolwg o'r Swydd:

Bydd y Swyddog Gweithredol Digwyddiadau Defnyddwyr wedi'i leoli yn ein swyddfa yn Aberystwyth, ac yn adrodd i'r Rheolwr Datblygu'r Farchnad. Bydd yn gyfrifol am ddatblygu, cynllunio a darparu digwyddiadau i ddefnyddwyr a'r sector masnach ar ran HCC.

Bydd yn ofynnol i ddeiliad y swydd gynnal proffil HCC fel y sefydliad sy'n cynrychioli'r diwydiant cig coch yng Nghymru, gan ryngweithio gyda defnyddwyr a'r holl randdeiliaid yn y gadwyn gyflenwi. Yn ogystal â hwyluso'r defnydd effeithlon o adnoddau i gyflwyno HCC fel sefydliad arbenigol deinamig sy'n gweithio ar ran ffermwyr, proseswyr a thalwyr ardollau o Gymru.

Bydd deiliad y swydd yn cynorthwyo i hyrwyddo Cig Oen Cymru PGI, Cig Eidion Cymru PGI a Phorc o Gymru, yn uniongyrchol i gynulleidfaoedd defnyddwyr drwy bresenoldeb mewn digwyddiadau ac arddangosfeydd. Hefyd, bydd gofyn i ddeiliad y swydd gefnogi HCC mewn digwyddiadau i ymgysylltu rhanddeiliaid HCC yn y diwydiannau cynhyrchu a phrosesu; a hyrwyddo gwaith HCC drwy gyfweiliadau darlledu ac arddangosiadau coginio. Yn ogystal â helpu i gynhyrchu deunydd hyrwyddo a marchnata a dylunio stondinau masnach.

Prif Atebolrwydd, Cyfrifoldebau a Gweithgareddau Allweddol:

- Cydlynu a chynnal arddangosfeydd a digwyddiadau HCC i'r sector masnach.
- Cydlynu a chynnal gweithgareddau ymgysylltu defnyddwyr HCC mewn arddangosfeydd a digwyddiadau yn y DU.
- Cydlynu a chynnal gweithgareddau ymgysylltu rhanddeiliaid HCC yn y DU.
- Sefydlu a chynnal cyswllt proffesiynol gyda phersonél allweddol yn y sectorau addysg, deiet ac iechyd. Gallai hyn gynnwys cydlynu gyda CBAC, awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, AHDB a QMS.
- Chwarae rhan weithredol yng nghynllunio strategol yr holl weithgareddau defnyddwyr, masnach a rhanddeiliaid.
- Helpu i gynnal gweithgareddau ar stondinau mewn arddangosfeydd yn y DU a thramor.
- Cymryd rhan mewn cyfweiliadau teledu a radio i hyrwyddo rhinweddau cig coch Cymru, gan roi cyngor ynghylch ei fanteision maethol.

- Cydlynu gydag aelodau tîm Datblygu'r Farchnad a dylunwyr graffig wrth gynhyrchu pwynt gwerthu a deunyddiau marchnata eraill i'w defnyddio mewn arddangosfeydd a digwyddiadau.
- Helpu i baratoi tendrau ar gyfer arddangosfeydd a digwyddiadau, cydlynu gyda dylunwyr stondinau ynghylch cynlluniau i gynnal ymddangosiad proffesiynol HCC.
- Cynrychioli HCC mewn arddangosfeydd, digwyddiadau a chynadleddau perthnasol.
- Rheoli a chyflawni prosiectau.
- Cynllunio, cydlynu, rheoli a chyflwyno arddangosiadau coginio / samplu mewn arddangosfeydd a digwyddiadau yn y DU a thramor; cefnogi'r Swyddog Gweithredol Defnyddwyr (fel sy'n ofynnol).
- Rheoli, trefnu a chynnal arddangosiadau defnyddwyr.
- Ymchwilio, argymhell a chynhyrchu nwyddau newydd i'w dosbarthu gan HCC mewn arddangosfeydd a digwyddiadau.
- Dylunio, cydlynu a chynnal digwyddiadau hyfforddi ar gyfer staff HCC a chynrychiolwyr allanol mewn arddangosfeydd a digwyddiadau.
- I ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill fel sy'n ofynnol weithiau gan Reolwr Datblygu'r Farchnad, sydd yn gymesur â graddfa'r rôl.

Manyleb y Person: Swyddog Gweithredol Digwyddiadau

Ffactor	Meini Prawf Hanfodol	Meini Prawf Dymunol
Gwybodaeth	Wedi'i addysgu i lefel gradd (neu gyfwerth) o ddewis mewn Gwyddor Maeth, Gwyddor Bwyd, Iechyd a Maeth, Maeth neu Ddieteteg).	Cymwysterau technegol neu broffesiynol.
Profiad a Sgiliau	<p>Sgiliau cyfathrebu ardderchog (llafar ac ysgrifenedig) yn y Gymraeg ac yn Saesneg.</p> <p>Y gallu i weithio fel rhan o dîm yn ogystal ag yn unigol.</p> <p>Hunan-gymhellol ac yn gallu gweithio ar eich liwt eich hun.</p> <p>Sgiliau cynllunio a threfnu ardderchog.</p> <p>Angerdd ar gyfer cyflawni ar amser a sylw i fanylion.</p> <p>Tystiolaeth o adeiladu perthnasau gweithio effeithiol.</p> <p>Trwydded yrru ddilys gyfredol.</p> <p>Sgiliau rhifiadol a TG da.</p> <p>Hyblyg i ofynion y rôl (gweithio dramor a gweithio ar benwythnosau).</p>	<p>Profiad / cefndir mewn cynllunio, trefnu a chynnal digwyddiadau / arddangosfa masnachol.</p> <p>Profiad o gysylltu gyda sefydliadu allanol (CBAC, awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, AHDB, QMS).</p> <p>Profiad o wneud cyfweiliadau teledu a radio.</p> <p>Gwybodaeth am nodweddion cig coch Cymru i ddarparu cyngor i ddefnyddwyr am ei fanteision maethol.</p> <p>Profiad o gynllunio, cydlynu a chynnal digwyddiadau hyfforddi.</p> <p>Profiad o goginio / arlwyo.</p> <p>Profiad o fynychu cyfarfodydd allanol ar ran sefydliad.</p> <p>Profiad o gynhyrchu dogfennau tendro.</p>